

Sgwrs Leol Merthyr Tudful

Ar 21 Hydref 2024, cynhaliodd Llais Cwm Taf Morgannwg fforwm cyhoeddus ym Merthyr Tudful i drafod dyfodol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Cyflwynodd cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Gwasanaethau Cymdeithasol Merthyr Tudful eu gweledigaeth ar gyfer dyfodol gwasanaethau ym Merthyr. Cafodd y cyhoedd a fynychodd gyfle i rannu eu barn a'u profiadau.



LLAIS

Eich llais mewn iechyd | Your voice in health
a gofal cymdeithasol | and social care



GIG
Cwm Taf Morgannwg
NHS
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf Morgannwg
University Health Board

Syniadau o'r sgwrs leol

- 1. Mae'r galw ar wasanaethau yn uchel iawn** – pryderon am restrau aros ac amseroedd aros adrannau achosion brys ambiwlansys
- 2. Nid oes digon o apwyntiadau meddygon teulu** – mae'r bwrdd iechyd yn meddwl am ail-lunio gwasanaethau fel y gall practisau meddygon teulu gydweithio'n agosach
- 3. Pryderon am wasanaethau ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio** - Mae Ysbyty yn y Cartref a modelau ataliol wedi'u cynllunio i gyflawni canlyniadau gwell gan bobl hŷn
- 4. Nid ysbyty yw'r lle gorau i fod bob amser** – gall ymyriadau cynnar a gwasanaethau integredig atal a byrhau arosiadau yn yr ysbyty lle bo'n bosibl
- 5. Gall cael mynediad at wasanaethau fod yn ddryslyd** – mae angen gwell cyfeirio er mwyn gwneud pethau'n gliriach
- 6. Parc Iechyd Llantrisant** – dylai cynlluniau ar gyfer y safle newydd gael effaith gadarnhaol ar amseroedd aros ar gyfer meddygfeydd orthopedig

Mae Sgwrs Leol yn gyfle i ddod â chymunedau, darparwyr gwasanaethau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau at ei gilydd i rannu safbwyntiau a phrofiadau.

Defnyddir llais y cyhoedd i helpu i lunio dyfodol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Hoffai Llais Cwm Taf Morgannwg ddiolch i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Gwasanaethau Cymdeithasol Merthyr Tudful am eu cyflwyniadau ac i'r aelodau o'r cyhoedd a ddaeth draw i ofyn cwestiynau a rhannu eu barn.

